## Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae rasio milgwn yng Nghymru wedi dod yn destun pryder cynyddol gan y cyhoedd, gyda thystiolaeth yn tynnu sylw at y risgiau o anafiadau, marwolaethau a chanlyniadau gwael i filgwn. Mae'r pryderon hyn wedi ysgogi galwadau cryf am weithredu, gan gynnwys deiseb[1] a lofnodwyd gan dros 35,000 o bobl ac adroddiad[2] Pwyllgor y Senedd yn argymell gwaharddiad graddol.

Mewn ymateb i hyn, cynhwyswyd dau gwestiwn wedi'u targedu yn *Trwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid*[3], a lansiwyd ar 08 Rhagfyr 2023. Cyhoeddwyd Crynodeb o'r Atebion[4] ym mis Rhagfyr 2024. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies, mai dyma'r amser iawn i wahardd rasio milgwn yng Nghymru[5]. Nodwyd ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin 2025[6].

Mae'r pryderon lles a godwyd gan ymatebwyr a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod pryderon yn bodoli, gyda llawer yn mynegi'r farn bod mesurau diogelu presennol yn annigonol a bod angen gweithredu cryfach, mwy penderfynol i ddiogelu lles milgwn.

Ystyriwyd sawl opsiwn i fynd i'r afael â'r mater. Un cynnig, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r ymgynghoriad, oedd cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer perchnogion a hyfforddwyr milgwn i ddarparu goruchwyliaeth reoleiddiol. Fodd bynnag, yn y pen draw ystyriwyd yr opsiwn hwn yn annigonol, gan nad oedd yn mynd i'r afael â phryderon lles craidd, yn enwedig y niwed a achosir gan rasio ar draciau hirgrwn, sy'n gysylltiedig â chyfraddau uchel o anafiadau a marwolaethau, yn ogystal â heriau parhaus wrth ailgartrefu milgwn wedi ymddeol.

Y camau gweithredu a ffefrir yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru, gan ddarparu datrysiad clir, gorfodadwy sy'n cyd-fynd â theimlad y cyhoedd ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i les anifeiliaid.

Mae Lles Anifeiliaid yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Ein huchelgais yw bod pob anifail yng Nghymru yn byw bywyd da. Mae ein [7]Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26 yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r ymrwymiadau hyn ar waith. Mae'r cynigion yn y Bil[8] Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

---

[1] Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru - Deisebau
[2] Y Troad Terfynol?
[3] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU/ymgynghoriad
[4] Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU/crynodeboymatebion
[5] Cymru'n symud i wahardd rasio milgwn | LLYW.CYMRU
[6] Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 'Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid, gan gynnwys rasio milgwn' a'n camau nesaf (24 Mehefin 2025) LLYW.CYMRU
[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26-0.pdf
[8] Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) | LLYW.CYMRU

I gefnogi'r cyfnod pontio, cyhoeddwyd Grŵp Gweithredu ar 11 Gorffennaf 2025[9]. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant rasio, lles anifeiliaid a'r awdurdod lleol, a bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru wrth i ni symud i ffwrdd o rasio milgwn. Bydd y Grŵp yn blaenoriaethu lles milgwn ac yn ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd, gan sicrhau bod y broses yn dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn deg.

**Effeithiau**

Stadiwm Milgwn Valley yn Ystrad Mynach yw'r unig drac rasio milgwn sydd ar ôl yng Nghymru.[10] Fe'i hagorwyd ym 1976, ac roedd yn gweithredu'n ddidrwydded tan fis Awst 2023, pan gafodd ei drwyddedu gan Fwrdd Milgwn Prydain (GBGB), a'r ras gyntaf o dan drwydded y GBGB yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023.[11] Er gwaethaf gwelliannau i'r trac a'r cyfleusterau ar ôl trwyddedu, roedd pryderon sylweddol yn parhau.

Bydd y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn cael effaith uniongyrchol ar Stadiwm Milgwn Valley a'r rhai y mae eu bywoliaeth yn dibynnu arno, gan gynnwys hyfforddwyr a staff cymorth. Rydym yn cydnabod y bydd incwm a chyflogaeth yn cael eu colli, ond disgwylir i'r effaith economaidd gyffredinol fod yn gyfyngedig o ystyried graddfa fach y diwydiant yng Nghymru.

O safbwynt cyrff cyhoeddus, ni ddisgwylir i'r Bil greu beichiau gweinyddol sylweddol iddynt gan y bydd gwaith gorfodi yn cael ei reoli gan swyddogion awdurdodau lleol presennol. Mewn gwirionedd, gallai'r ddeddfwriaeth leihau llwyth gwaith gweinyddol gan y bydd llai o gwynion cyhoeddus a gohebiaeth sy'n ymwneud â rasio milgwn.

**Manteision**

Disgwylir i'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ddarparu manteision hirdymor, yn enwedig o ran gwella lles anifeiliaid drwy roi terfyn ar y risgiau o anafiadau, marwolaethau, a chanlyniadau gwael i filgwn. Mae'n adlewyrchu pryder cynyddol y cyhoedd am driniaeth foesegol anifeiliaid ac mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob anifail yn byw bywydau diogel ac iach.

Mae'r gwaharddiad hefyd yn cefnogi newid diwylliannol i ffwrdd o adloniant sy'n seiliedig ar anifeiliaid a gallai wella enw da Cymru fel cenedl sy'n blaenoriaethu safonau lles uchel. Dros amser, gallai leihau'r pwysau ar elusennau ailgartrefu a chaniatáu i safle'r stadiwm gael ei ddefnyddio at ddibenion cymunedol, economaidd neu amgylcheddol amgen.

---

[9] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-grwp-gweithredu-i-lywior-trawsnewidiad-tuag-waharddiad-ar-rasio-milgwn-yng
[10] Greyhounds | Valley Greyhounds | Wales
[11] Greyhound Board of Great Britain | GBGB

**Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[12] yn ei gwneud yn ofynnol inni ddangos ein bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'n gwaith. Mae'r effaith y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei chael mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio wedi'i nodi yma.

- **Hirdymor**
  Mae'r ddeddfwriaeth yn cymryd agwedd rhagweithiol trwy atal traciau rasio milgwn newydd a mynd i'r afael â materion lles fel anafiadau a marwolaethau. Mae Grŵp Gweithredu yn cefnogi cynllun pontio wedi'i gynllunio ar gyfer milgwn a rhanddeiliaid y diwydiant, gan sicrhau lles anifeiliaid a gwydnwch cymunedol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- **Ataliad**
  Trwy wahardd rasio milgwn, mae Llywodraeth Cymru yn atal ecsbloetio milgwn a'r materion lles cysylltiedig yn uniongyrchol. Mae'r weithred hon hefyd yn gosod cynsail ar gyfer agwedd gymdeithasol iachach tuag at ddefnyddio anifeiliaid ar gyfer adloniant. Mae'n arwydd o newid mewn gwerthoedd, yn blaenoriaethu lles anifeiliaid ac yn annog mwy o safonau moesegol ar draws diwydiannau eraill sy'n cynnwys anifeiliaid.

- **Integreiddiad**
  Mae'r penderfyniad yn cefnogi nodau llesiant lluosog: Cymru iachach drwy well lles anifeiliaid, Cymru fwy cyfartal trwy herio masnacheiddio anifeiliaid, a Chymru wydn trwy hyrwyddo safonau moesegol. Mae cryfder teimlad y cyhoedd, a adlewyrchir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, deisebau, a chyfranogiad Aelodau'r Senedd, yn dangos bod rasio yn cael ei ystyried yn gynyddol anghydnaws â gwerthoedd a safonau modern ar gyfer lles anifeiliaid.

- **Cydweithio**
  Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys sefydliadau lles, arbenigwyr milfeddygol, y diwydiant a chymunedau lleol i reoli'r trawsnewidiad. Bydd y Grŵp Gweithredu yn chwarae rôl allweddol wrth nodi atebion ymarferol a lliniaru effeithiau, gan sicrhau bod lles milgwn sydd ar hyn o bryd yn y diwydiant yn cael ei ddiogelu wrth gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid.

- **Cyfranogiad**
  Dangosodd dros 1,000 o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a deiseb gysylltiedig gefnogaeth gref gan y cyhoedd. Fe wnaeth y safbwyntiau hyn siapio'n uniongyrchol y penderfyniad i geisio gwaharddiad. Bydd y Grŵp Gweithredu yn

[12] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU

parhau i sicrhau ymgysylltu ystyrlon trwy gydol y trawsnewidiad gan sicrhau cynrychiolaeth i bawb yr effeithir arnynt.

**Sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau hyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r camau hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Bydd cyfnod gweithredu yn cefnogi'r cyfnod pontio, gan roi amser i'r diwydiant ac unigolion yr effeithir arnynt i baratoi.

Bydd y Grŵp Gweithredu yn chwarae rôl allweddol wrth nodi atebion ymarferol a chynghori ar sut i reoli effeithiau.

Drwy gydol y camau pontio a monitro, byddwn yn adolygu'r cynnydd yn rheolaidd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn llywio penderfyniadau ac yn ein helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, parhaol i anifeiliaid, cymunedau, a chenedlaethau'r dyfodol.

**Effaith a chost**

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi amcangyfrif o gostau a manteision. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Mae Pennod 7 a Phennod 8 yn archwilio pob opsiwn, ynghyd ag unrhyw gostau, effeithiau a manteision cysylltiedig.